



# Crynodeb o'r Adroddiad Perfformiad Blynyddol 2017/18

Mae'r Adroddiad Blynyddol yn ymdrin â: -



Mae'r crynodeb hwn o Adroddiad Perfformiad Blynyddol Cyngor Sir Y Fflint yn rhoi trosolwg o'n perfformiad wrth gyflawni blaenoriaethau'r Cyngor sydd wedi'u nodi yng Nghynllun Gwella 2017/18 sy'n:

- + Cwrdd â rhwymedigaethau statudol Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (cyhoeddwy'r adroddiad llawn ar ein gwefan erbyn 31 Hydref 2018).
- + Darparu safbwynt cytbwys, atgyfnerthu llwyddiant, tynnu sylw at ardaloedd i'w gwella

# Mae meysydd ar gyfer gwelliant parhaol yn cynnwys



Mae'r crynodeb hwn o Adroddiad Perfformiad Blynyddol Cyngor Sir Y Fflint yn rhoi trosolwg o'n perfformiad wrth gyflawni blaenoriaethau'r Cyngor sydd wedi'u nodi yng Nghynllun Gwella 2017/18 sy'n:

- + Cwrdd â rhwymedigaethau statudol Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (cyhoeddwy'r adroddiad llawn ar ein gwefan erbyn 31 Hydref 2018).
- + Darparu safbwynt cytbwys, atgyfnerthu llwyddiant, tynnu sylw at ardaloedd i'w gwella



Mae Cyngor Sir y Fflint yn parhau i gael ei redeg yn dda a pherfformio'n dda. Mae ein perfformiad da cyson wedi cael ei gydnabod yn lleol ac yn genedlaethol.


Mabwysiadodd y Cyngor y Cynllun y Cyngor ar gyfer 2017/18 ym mis Gorffennaf 2017. Mae'r blaenoriaethau yn y cynllun gyda chamau penodol sy'n cael eu mesur naill ai'n ôl rhifau neu ganrannau, neu yn ôl cynnydd yn erbyn cerrig milltir wedi'u gweithredu. Yn ogystal, mae risgiau'n gysylltiedig â darparu'n cael eu nodi a'u holrhain.

Mae risgiau wedi cael eu rheoli'n dda dros y flwyddyn. Ar ddiwedd y flwyddyn, cafodd risgiau Cynllun y Cyngor eu hasesu fel a ganlyn:


- **2** (4.5%) yn **is**el (gwyrdd)
- **4** (8.5%) yn **fân** (melyn)
- **28** (61%) yn **ganolig** (oren)
- **12** (26%) yn **uchel** (coch)



4.5%



8.5%



61%



26%

O'r rhain, mae 91.6% o'r risgiau wedi lleihau yn sylweddol neu wedi aros yr un fath tra mai dim ond 8.7% oedd wedi cynyddu.

# Uchafbwyntiau o'r llwyddiannau



## Cyngor Cefnogol

- Cymeradwywyd 186 o geisiadau cynllunio ar gyfer tai fforddiadwy - y targed yw 50
- Creu 293 o gartrefi newydd o ganlyniad i ddod â thai gwag yn ôl i ddefnydd
- Cynllun peilot llwyddiannus Llwglyd dros y Gwyliau - dros 14,500 o brydau am ddim wedi'u rhoi.
- 73 uned Gofal Ychwanegol arall wrth adeiladu Llys Raddington yn y Fflint.
- Lansiad a gweithrediad llwyddiannus y Ganolfan Cymorth Cynnar - yn darparu cymorth amserol i deuluoedd.



## Cyngor Uchelgeisiol

- Gwnaed cynnydd da yn rhan o'r Cynnig Twf Rhanbarthol
- Prentisiaethau wedi'u cefnogi drwy anogaeth STEM (Gwyddoniaeth, technoleg, peirianeg a mathemateg), a gweithio mewn partneriaeth â'r diwydiant adeiladu



## Cyngor sy'n Dysgu

- Perfformiad da yng Nghyfnod Allweddol 3
- Gwelliant cyson o'r Dangosydd Pwnc Craidd dros y 5 mlynedd diwethaf - yn gyson yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol; 89.5% yn 2017



## Cyngor Gwyrdd

- Cwblhawyd yr holl brosiectau yn y cais am grant yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy, gan gynnwys amddiffyn rhag llifogydd, dyletswydd bioamrywiaeth a gwella gofod gwyrdd.
- Mae'r holl waith ar gyfer 2017/18 wedi'i gwblhau yn unol â'r cyllid grant a ddyfarnwyd ar gyfer Cronfa Cludiant Lleol a Chronfa Rhwydwaith Cludiant Lleol.
- Wedi ehangu rhwydwaith o wasanaethau bws cymunedol



## Cyngor sy'n Cysylltu


- Mynychodd mentrau cymdeithasol wobrau Busnes Sir y Fflint ac am y tro cyntaf roeddent wedi llwyddo i ennill gwobr arwyddocaol.
- Tri Model Darparu Amgen wedi'u sefydlu i weithredu gwasanaethau'r cyngor. Contract Ymddiriedolaeth Home Farm (HFT) (dechreuodd 1 Chwefror 2018), Y rhain yw Aura Leisure and Libraries (yn weithredol o 1 Medi 2017) a NEWydd Catering and Cleaning (yn weithredol o 1 Ebrill 2018).



## Cyngor sy'n Gwasanaethu

- Cyflawni cynnydd da o ran darparu meysydd blaenoriaeth allweddol Strategaeth Pobl.
- Lleihad mewn absenoldeb salwch i lai na 9 diwrnod y flwyddyn.
- Cyflawnwyd 95% o arbedion effeithlonwydd a gynlluniwyd
- Ymagwedd strategol o ddatblygu Gwasanaethau Cwsmer a gwella ein defnydd o dechnoleg ddigidol.

# Mae meysydd ar gyfer gwelliant parhaol yn cynnwys:





Diwrnodau calendr i ddarparu grant cyfleusterau i oedolion a phlant anabl - prosesau gwell bellach yn eu lle

Aelwydydd sydd wedi'u hatal rhag bod yn ddigartref

Cyflymu'r broses o gwblhau ceisiadau cynllunio

# Cymhariaeth Mesurau Cynllun y Cyngor o Duedd Perfformiad MAC rhwng 2016/17 a 2017/18

Roedd 12 o ddangosyddion cenedlaethol sydd wedi aros yr un fath â 2016/17. O'r rhain, llwyddom i gynnal neu wella dwy ran o dair ohonynt.



## Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Mae gweithgareddau yng Nghynllun y Cyngor yn dangos cynnydd da yn erbyn yr Amcanion Lles y gwnaethom eu sefydlu i'n hunain yn 2017.

Mae'r rhain yr un fath â'r 'effeithiau' rydym yn bwriadu eu cyflawni.

Mae Cynllun y Cyngor 2018/19 wedi'i gyhoeddi ac yn parhau gydag ymrwymiadau'r Cyngor ar draws y chwe blaenoriaeth.

Mae dogfennau ar gael yn Gymraeg a Saesneg. Os ydych chi angen fformat amgen, cysylltwch â:

Cyngor Sir y Fflint, Tîm Busnes a Chyfathrebu Corfforaethol, Y Prif Weithredwr, Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug, Sir y Fflint CH7 6NB

Ar y cyfan mae'r Cyngor yn gwneud cynnydd da mewn meysydd a nodwyd yn flaenoriaethau. Er gwaethaf pwysau ariannol mawr parhaus a llai o gyllid cenedlaethol, mae Sir y Fflint wedi bod yn greadigol ac wedi llwyddo i gyflawni ei nodau am flwyddyn arall. Mae'r Cyngor wedi profi unwaith eto ei fod yn sefydliad sy'n perfformio'n dda, gan osod targedau a chyflawni'r blaenoriaethau sydd wedi'u nodi yng Nghynllun y Cyngor.

I weld yr Adroddiad Perfformiad Blynyddol llawn ewch i <http://www.sirfflint.gov.uk/cy/Resident/Council-and-Democracy/Annual-Performance-Report.aspx>